Munudau Cyfarfod Llawn o Gyngor Tref Llandeilo
Yn Siambr y Cyngor, Swyddfa'r Cyngor , Crescent Road, Llandeilo am 7.30 p.m. ar Nos Fawrth Hydref 19eg 2004

Presennol: Maer Mrs Ros Bellamy
Cyng. Ms Pam Steane Price
Cyng. Ieuan Gwyn
Cyng. Paul Faulkner
Cyng. Sirol Ieuan Jones
Mr Hugh Towns
Dirprwy Faer Colin Jenkins
Cyng. Mrs Fran Murphy
Cyng. Roy Davies
Swyddog Technegol Huw Griffiths
Cyng. Mrs Charlotte Leadbeater

Ymddiheuriadau : Cyng David Jones

Mynychodd y cwnstabl Adrian Roche y cyfarfod i gynghori ar broblemau trafnidiaeth. Rhoddodd PC Roche adroddiad byr ar nifer o fan ddigwyddiadau ac anafiadau traffig yn yr ardal leol yn ystod y llynedd ac yna trafodwyd problemau parcio gyda'r cynghorwyr. Ei gyngor ef oedd os oedd cerbyd yn achosi rhwystr go iawn yn hytrach nag rwystr tybiedig fe ddylai galwad fynd at yr heddlu lleol ar y rhif 01550 720 330 er mwyn i swyddog ymchwilio ymhellach ac o bosib gosod cosb benodedig . Fe wnaeth gadarnhau taw cyfrifoldeb y Cyngor Sir oedd hyn , drwy'r wardeniaid traffig, am ddirwyon parcio a pharcio ar linellau melyn. Fe fydd swyddogion yn wyliadwrus o gwmpas yr ardaloedd a oedd yn peri gofid.

6252/Hyd/04 **Aelodau newydd** Mr Hugh Towns wedi'i gyfethol ar y cyngor ac wedi'i ethol yn aelod o'r pwyllgor cyllid. Arwyddodd Mr Towns ddatganiad yn derbyn .

6253/Hyd/04 **Munudau cynt** Darllenwyd munudau cyfarfod llawn o'r Cyngor 20/7/04 a newidiwyd fan gamgymeriadau teipio : munud 6176 a 6229 yn cyfeirio at C Jenkins ac nid D Jenkins ; roedd enw Hugh Towns heb yr 'S' ar y diwedd. Gofynnodd Hugh Towns am nodi ei ddatganiad o ddiddordeb. Wedi'r newidiadau yma fe arwyddwyd y munudau fel rhai dilys a chywir..

6254/Hyd/04 **Materion yn codi:**

6176 Nid oedd gan Cyngor Sir Gaerfyrddin swyddog a oedd a chyfrifoldeb am y swyddfeydd yn Llandeilo nac ychwaith y Caban a logwyd i'r cyngor. Roedd angen dybryd am gyflenwad dwr a thrydan i'r Caban. Bydd y Cyngor Sir yn chwilio am gysylltydd i ni. Cysylltwyd a Martin Rees i osod golau diogelwch .

6189 Tân gwyllt : Cafwyd amcan-bris yswiriant. Byddai hwn yn cael ei dalu a'i gadarnhau yn y cyfarfod cyllidol nesaf .

6227 Fe fydd y drafodaeth ar barhau gyda chyfarfodydd cyllid a chynllunio arwahân yng Nghyngor y Dre yn cael ei ail drafod ar ôl diwrnod hyfforddi Un Llais i Gymru ar ddiwedd y mis.

6230 Cytunwyd ar arddangos copi o glawr Polisi yr Iaith Gymraeg ar y bwrdd hysbysebion , a bydd y ddogfen ar gael i aelodau o'r cyhoedd ei weld.

6255/Hyd/04 **Munudau Cyfarfod Cyllid 6th Hydref 2004** – arwyddwyd yn ddilys ac yn gywir ar ôl fan newidiadau teipio ac fe ofynnodd Cyng. Hugh Towns am nodi ei ddatganiad o ddiddordeb . Cynigiwyd gan Cyng. I Gwyn, Eiliwyd gan Cyng. Pamela Steane Price.

6256/Hyd/04 **Munudau Cynllunio 6th Hydref 2004 –**arwyddwyd fel rhai dilys a chywir ar ôl cywiro man wallau teipio ac fe ofynnodd Cyng. Hugh Towns i'w ddatganiad o ddiddordeb gael ei nodi. Cynigiwyd gan Ddirprwy Faer C Jenkins, eiliwyd gan Cyng. Paul Faulkner.

6257/Hyd/04 **Materion yn codi**

6250 Goleuadau Nadolig : Cafwyd gan Martin Rees amcangyfrif llafar y byddai profi'r golau yn costio £15 pob soced gyda £15 am bob llinyn o oleuadau i'w cysylltu, ac fe fyddai cost cyflenwi wrth gefn yn ystod y cyfnod y byddai goleuadau'r Nadolig i fyny yn £35 llafur yr awr .Bydd cyfanswm y gost o gwmpas £1600. Doedd Rhys Williams ddim yn berchen ar yr offer cywir ac fe fyddai yn gorfod ychwanegu cost hurio offer at y gost..Fe fydd trydydd amcangyfrif oddi wrth Neil Perry, Adran y Parciau yn y Cyngor Sir. Bydd y gwaith yn cynnwys codi'r Coed Nadolig a thynnu'r goleuadau a'r coed a'u gwaredu. Roedd arwydd Nadolig Llawen 5m x 1.5m wedi'i ddosbarthu i Neuadd y Sir ac roedd angen lle parhaol i'w storio.

6258/Hyd/04 **Adroddiad y Maer** : Cafwyd adroddiad gan y Maer am ei gweithgareddau yn ystod y mis diwethaf.

6259/Hyd/04 **Tân Gwyllt :**
Nodwyd adroddiad byr

6260/Hyd /04 **Goleuadau Nadolig yn y dyfodol**
Penderfynwyd ar ffurfio gweithgor i ddarganfod pa weithred a pha gostau fyddai angen , a chysylltu gydag awdurdodau eraill i weld beth roedden nhw wedi'i wneud i wella goleuadau'r Nadolig erbyn y flwyddyn nesaf . Byddai'r gweithgor yn adrodd nôl yn llawn i'r pwyllgor llawn . Byddai angen amcangyfrif o gyfanswm y gost yn barod i gyfarfod cyllidol mis Rhagfyr , er mwyn i'r precept fyddai angen gael ei osod yn Ionawr.

Cyng. Hugh Towns a Dirprwy Faer
Colin Jenkins i fod yn weithgor

6261/Hyd/04 Cyng Fran Murphy a Cyng Pam Steane Price i arwain y gweithgor y rhandir. Llain o dir ger y wal yn Crescent Road i'w gadw'n glir rhag ofn byddai angen trwsio'r wal.

6262/Hyd/04 **Estyn Llaw** wedi ysgrifennu ynglŷn â chynllun i ddatblygu dwyieithrwydd yn y gymuned .Bydd Cyng. Roy Faulkner yn ymchwilio ac yn adrodd nôl.

6263/Hyd/04 **Cynllun Blynyddol yr Heddlu –**trafodwyd ac fe benderfynwyd taw gor –yrru, yfed dan oed tu allan i dafarndai, a pharcio a oedd yn creu rhwystr oedd prif gonsýrn y Cyngor ar hyn o bryd ac fe fyddai'r rhain yn cael eu hadrodd yn ôl i'r heddlu.

6264/Hyd/04 **Cymdeithas o Glercod Cyngor Lleol** –byddai cwrs yn y Drenewydd ar 18fed o Dachwedd i drafod cyllid a rheoli cynlluniau cymunedol . Penderfynwyd ar i Cyng. C Leadbeater, y Clerc , June Stait, ac efallai Cyng. P Steane Price i fynychu'r cwrs ar gost o £30 yr un .

6265/Hyd/04 **Nodwyd yr ohebiaeth ganlynol :**
Panel Beirniadaeth Cymru –adroddiad blynyddol ;
Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol –cyfarfod blynyddol ,17 Hyd yn Stratford;
Cyfarfodydd dyddiadur 2004 rhwydwaith cymunedol Cyngor Sir – cyfarfod nesaf yn Nhregib ar Hyd 21ain ;
Cymdeithas yr Iaith ynglŷn â chynlluniau Radio sir Gar yn y dyfodol ;
Catrin Dafydd, Swyddog Maes i Adam Price AS yn cyflwyno ei hun ;
Cadarnhad taw aflwyddiannus oedd y Cyngor Tref wrth geisio am grant Gŵyl y Goleuni ;
Adolygiad y Cyngor Sir o adroddiad archwiliad tir llygredig.

Diolchodd y Maer y Swyddog Technegol, Huw Griffiths am ei waith ar y cyngor , a dymunodd yn dda iddo i'r dyfodol, a gwahodd ef i ymuno â'r cynghorwyr am wydraid adeg y Nadolig .